# Newyddion DBS Mehefin

## Rhestr o erthyglau:

- Cyflwyniad
- Gwasanaeth Diweddaru – barod i fynd
  - Sut ydw i'n cofrestru? – gwybodaeth ymgeisydd
  - Beth sydd angen i sefydliadau wybod? – Gwybodaeth sefydliad
  - Cyrff Cofrestredig e-bulk
  - Angen mwy o wybodaeth?
- Gwasanaeth Diweddaru: mae'r canlyniadau wedi cyrraedd!
- Adran x61 ar y Ffurflen gais
- Tystysgrifau ymgeisydd yn unig
- Hidlo: beth sydd angen i chi wybod
- Ffurflen gais: ambell beth pwysig arall i'w nodi:
  - Cwblhau cwestiwn e55
  - Hysbysiad Prosesu Teg

## Cyflwyniad

Helo a chroeso cynnes i chi i rifyn Mehefin Newyddion y DBS.

Fel y gwyddoch o'r e-bost a anfonais atoch ar 23 Mai, daeth y mis hwn a'r newyddion y gwn yr oeddech oll yn aros i'w glywed – ein bod yn cyflwyno'r Gwasanaeth Diweddaru ar 17 Mehefin ac y bydd yn costio £13 (am ddim i wirfoddolwyr). Rydym wrth ein boddau gyda'n gwasanaeth newydd, ac rwy'n siŵr y byddwch chi hefyd.

Fe gymrodd fwy o amser i ni gael yr wybodaeth hon allan i chi nag y gobeithiwyd oherwydd dyfarniad gan y Llys Apêl ar hidlo hen a mân euogfarnau heb hysbysiad. Am ei fod yn fater cyfreithiol, gofynnodd y swyddfa Gartref i ni sicrhau fod gweithrediad y datrysiad hidlo yn cael blaenoriaeth dros bopeth arall. Roedd y dyfarniad hefyd yn effeithio ar y gwaith oedd angen ei gwblhau i gyflawni'r Gwasanaeth Diweddaru a'r dystysgrif ymgeisydd yn unig yr oeddem yn bwriadu ei gyflwyno ar yr un pryd. Hoffwn ddiolch i chi am eich amynedd wrth i ni ddelio ag amgylchiadau tu hwnt i'n rheolaeth.

Nawr bod y Gwasanaeth Diweddaru wedi cyrraedd, rydym eisiau'ch helpu i ddeall sut mae'n gweithio a mwynhau ei amryw fanteision. Felly mwynhewch ddarllen y rhifyn hwn i chi gael y diweddaraf ar bopeth i wneud â Diweddaru.

Mae'n sicr yn amser prysur i ni, gan i ni roi gwybod i chi ar 29 Mai ein bod yn cyflwyno'r system newydd i ganiatáu ar gyfer hidlo hen a mân euogfarnau, rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion o Dystysgrifau DBS.

Rydym eisoes wedi bod yn derbyn llawer o ymholiadau ynglŷn â beth a ellir ac na ellir ei ddileu o dystysgrifau, felly i'ch helpu i ddeall hyn, darllenwch ein herthygl 'Hidlo: beth sydd angen i chi wybod' a fydd yn disgrifio i chi beth yw'r rheolau newydd ac unrhyw eithriad i'r rheolau.

Gobeithio fod y rhifyn hwn yn trafod popeth yr ydych eisiau ei wybod am ein dau newid mawr, ond os byddwch angen unrhyw beth arall gennym, rhowch wybod i ni yn customerservices@dbs.gsi.gov.uk

Gyda fy nymuniadau gorau

**Adriènne Kelbie**

## Gwasanaeth Diweddaru – barod i fynd

Bydd y Gwasanaeth Diweddaru ar-lein newydd yn cael ei gyflwyno ar 17 Mehefin. O'r dyddiad hwn, gall unrhyw ymgeisydd sy'n gwneud cais am eu gwiriad cofnod troseddol nesaf yn gallu dewis ymuno â'r gwasanaeth newydd am £13 y flwyddyn. Ni chodir tâl ar gyfer gwirfoddolwyr.

Mae'r gwasanaeth newydd yn ceisio arbed amser ac arian i chi – ac ymgeiswyr – ac i wella'r dirwedd ddiogelu gyffredinol; sydd oll yn fanteision positif.

Mae bod ar-lein hefyd yn dod â chyfleuster a hyblygrwydd atodol i chi ac yn ein helpu i gadw costau i lawr - sy'n siŵr o fod yn newyddion da i chi hefyd! Mae'n sefyllfa ble mae pawb ohonom yn ennill.

Bydd yn newid y modd y mae pawb yn cael mynediad at ein gwasanaethau yn sylweddol – o'r modd y mae unigolion yn defnyddio eu Tystysgrif DBS i sut mae cyflogwyr yn gwirio addasrwydd eu cyflogeion i gyflawni eu rôl. Rydym yn gwybod y byddwch wir yn hoffi'r gwasanaeth; wedi'r cyfan, dyma beth mae nifer ohonoch wedi bod yn gofyn amdano.

### Sut ydw i'n cofrestru? – gwybodaeth ymgeisydd

Mae'n hawdd iawn i chi ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru. Ar gyfer ymgeiswyr, wedi 17 Mehefin, pan fyddant yn gwneud cais i gael eu gwiriad cofnod troseddol nesaf, byddant yn cael mynediad at y Gwasanaeth Diweddaru trwy'n gwefan ac yn cyflwyno'r manylion canlynol:

- cyfeirnod y ffurflen gais (y rhif 'F' ar dudalen flaen y ffurflen)
- cyfenw
- dyddiad geni
- cyfeiriad e-bost
- rhyw
- Statws Gwirfoddoli
- a'r maes dewisol o rif ffôn symudol.

Yna byddant yn talu'r ffi tanysgrifio, os nad ydynt yn wirfoddolwyr. Mae mor hawdd â hynny! Ac os ydynt yn anghofio ymuno wrth wneud cais am wiriad cofnod troseddol, bydd yn dal yn bosibl iddynt danysgrifio yn defnyddio eu Rhif Tystysgrif DBS, cyn belled â'u bod yn gwneud hynny o fewn 14 niwrnod i gyhoeddi eu tystysgrif.

Bydd tanysgrifwyr yn derbyn rhif adnabod unigryw, y bydd angen iddynt ei gadw'n ddiogel a pheidio ei rannu gyda neb gan y byddant yn defnyddio hyn i gael mynediad at eu cyfrif Gwasanaeth Diweddaru ar-lein. Mae'r tanysgrifiad yn cychwyn o ddyddiad cyhoeddi eu tystysgrif (neu eu dyddiad ymuno, os yw hyn yn hwyrach) ac yn parhau am 12 mis.

Gall unigolion ychwanegu mwy o Dystysgrifau DBS os oes angen – er enghraifft, efallai y byddant angen mwy nag un os nad yw eu tystysgrif wreiddiol o'r un math a lefel o wiriad ag sydd angen gan gyflogwr, e.e.:

**Lefel**: Gwiriad Manwl nid Safonol.

**Math**: Manwl gyda gwiriad Rhestr Wahardd Plant nid Rhestr Wahardd Oedolion; neu Fanwl heb wiriad Rhestr Gwahardd.

**Gweithlu**: Gweithlu Plant nid Gweithlu Oedolion.

Gallant roi eu caniatâd i chi (ac unrhyw gyflogwr arall) i gyflawni gwiriad Statws ar-lein o'u Tystysgrif DBS trwy ddangos y dystysgrif i chi a darparu rhif y dystysgrif, eu henw a dyddiad geni.

Bydd tanysgrifwyr yn gallu gweld ar-lein pwy sydd wedi gwirio statws pob Tystysgrif DBS a atodwyd i'w tanysgrifiad.

Bydd defnyddio'r Gwasanaeth Diweddaru yn arbed amser ac arian iddynt, a dim ond un Dystysgrif DBS fyddant ei hangen. Ac mae bod ar-lein yn rhoi'r un hwylustod a rheolaeth iddynt ag y mae siopa neu fancio ar-lein. Felly dylid eu hannog i gael y blaen ar y gweddill a chofrestru ar gyfer y gwasanaeth.

## Beth sydd angen i sefydliadau wybod? – Gwybodaeth sefydliad

Nid yw Sefydliadau yn ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru; dim ond ymgeiswyr all wneud hyn. Mae hyn oherwydd y gallwch gyflawni gwiriadau Statws ar-lein am ddim ar Dystysgrif DBS rhywun; ar yr amod eich bod wedi cael eu caniatâd.

Pan fyddwch yn gwirio Statws, fe ofynnir i chi gadarnhau fod gennych hawl cyfreithlon i wneud y gwiriad a'ch bod yn gallu cydymffurfio gyda'n Cod Ymarfer. Os nad ydych yn siŵr, ewch i'n gwefan am ragor o wybodaeth a chanllaw ar hawl.

Am wybodaeth ar sut i gyflawni gwiriad Statws a'r gofynion y bydd angen i chi eu bodloni, gweler rhifyn Ebrill Newyddion DBS neu ewch i'r canllaw i gyflogwyr ar ein gwefan.. Ceir rhagor o wybodaeth ar sut i gyflawni gwiriadau statws lluosog yno hefyd.

**Ni** fyddwn yn eich hysbysu os bydd statws unigolyn yn newid, ond byddwch yn gallu cyflawni gwiriadau Statws unrhyw bryd y mynnwch (gyda chaniatâd yr unigolyn) os ydych chi eisiau sicrhau fod Tystysgrif DBS rhywun yn dal yn gyfredol.

Os bydd gwiriad Statws unigolyn yn datgelu newid i'w tystysgrif, bydd angen i chi gael gair gyda nhw am y rhesymau dros hyn a gofyn iddynt wneud cais am wiriad cofnodion troseddol newydd.

## Cyrff Cofrestredig e-Bulk

Ni ellir cyflawni gwiriadau Statws trwy'r gwasanaeth e-Bulk. Os ydych yn Gorff Cofrestredig e-Bulk, bydd y canlyniad e-Bulk yn newid rhywfaint unwaith y byddwn wedi cyflwyno tystysgrifau i ymgeiswyr yn unig ar 17 Mehefin. Byddwch yn dal i gael eich hysbysu os yw'r Dystysgrif DBS yn wag, ond gan na fydd tystysgrifau bellach yn cael eu cyhoeddi i Gyrff Cofrestredig, byddwn yn newid y geiriad yn gysylltiedig â hyn.

Gallwch gyflwyno cais yr unigolyn am wiriad cofnodion troseddol trwy'r gwasanaeth ymgeisio e-Bulk; ond, gan nad yw ceisiadau ar-lein yn cynnwys y cyfeirnod perthnasol, dim ond yn defnyddio

eu rhif tystysgrif DBS y gall yr unigolyn ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru, ac mae'n rhaid iddynt wneud hyn o fewn 14 niwrnod i ddyddiad cyhoeddi eu Tystysgrif.

## Angen mwy o wybodaeth?

Os ydych chi angen cymorth pellach i ddeall y Gwasanaeth Diweddaru a'i newidiadau cysylltiedig, rydym yma i'ch helpu gyda beth sydd angen i chi wybod.

Rydym wedi creu tudalen benodedig ar gyfer y Gwasanaeth Diweddaru yma ar ein gwefan ble gallwch gael yr arweiniad angenrheidiol sy'n berthnasol i chi – gyda dau glic o'ch llygoden.

Mae'r dudalen yn cynnwys gwybodaeth gyffredinol ar y gwasanaeth a chanllaw manylach ar gyfer ymgeiswyr a chyflogwyr. Mae hefyd yn cynnwys dolen i'r newyddion diweddaraf ar y Gwasanaeth Diweddaru ble gallwch ddod o hyd i'r canlynol:

- canllaw i ymgeiswyr
- rhagolwg i ymgeiswyr
- canllaw i gyflogwyr
- rhagolwg i gyflogwyr
- cyflwyniad i gyflogwyr
- cyflwyniad i randdeiliaid

## Gwasanaeth Diweddaru: mae'r canlyniadau wedi cyrraedd!

Ym mis Mawrth ac Ebrill eleni, cyn ein bod yn gallu dweud mwy wrthych chi am y Gwasanaeth Diweddaru, fe gwblhaom waith ymchwil i'r farchnad ar y pwnc. Roedd yr astudiaeth gyflym hon yn bwysig iawn gan ei bod yn casglu adwaith a barn gan dros 1,000 o Gyrff Cofrestredig ac ymgeiswyr am y gwasanaeth, ac fe ddygom beth ydych (ac nad ydych) yn ei wybod.

Diolch o galon i bawb ohonoch oedd yn gallu cymryd amser o'ch diwrnod gwaith prysur i gymryd rhan. Roedd yn gymorth mawr i ni ddeall pa mor dda ydym wedi esbonio'r Gwasanaeth Diweddaru i chi a pha mor debygol ydych chi o'i ddefnyddio.

### Pwy sy'n gwybod beth?

Pan gyflawnom yr ymchwil, nid oedd unrhyw un yn gwybod fawr ddim am y Gwasanaeth Diweddaru. Roedd yn dda gennym weld fod dros hanner y Cyrff Cofrestredig y cysylltom â nhw yn ymwybodol o beth oedd hyn. Daeth y lefelau uchaf o ymwybyddiaeth o'r sector cyhoeddus a'r rhai ohonoch sy'n cyflawni gwiriadau cofnodion troseddol yn gyson. Gydag ychydig iawn o gyhoeddusrwydd ar y pryd, roedd hyn yn drawiadol iawn ac yn dangos pa mor dda mae newyddion yn lledaenu rhwng Cyrff Cofrestredig a grwpiau cynrychioli eraill.

Ond mewn cyferbyniad, dim ond 1 o bob 10 ymgeisydd oedd wedi clywed unrhyw beth am y gwasanaeth. O'r rhai oedd yn ymwybodol ohono, roeddynt wedi clywed amdano gan eu cyflogwr, cydweithwyr neu eu sefydliad. I fod yn onest, roeddem yn disgwyl hyn. Roedd yn gymorth mawr i ni ddeall pa waith cyfathrebu sydd angen i ni ei gyflawni gydag ymgeiswyr. Gwyddom cyn gynted ag y byddant yn clywed am fanteision y Gwasanaeth Diweddaru, y byddant yn awyddus i ymuno. Gallwch chi'n helpu ni – a chi'ch hun – trwy annog unrhyw gyflogai newydd ac/neu bresennol i ymuno â'r gwasanaeth gan roi gwybod iddynt pam ei fod yn fanteisiol iddynt ymuno.

Beth oedd yn amlwg o'r ymchwil oedd bod y Cyrff Cofrestredig a'r ymgeiswyr oedd eisoes yn gwybod am y Gwasanaeth Diweddaru yn sylweddoli'r manteision o'i ddefnyddio.

Roeddem yn falch iawn i weld fod dros 80% o Gyrff Cofrestredig a dros hanner yr ymgeiswyr yn dweud eu bod yn debygol o'i ddefnyddio. Y prif resymau a roddoch hi ni oedd y byddai'r Gwasanaeth Diweddaru yn arbed arian ac amser, yn gwneud y broses yn haws ac yn lleihau'r angen am geisiadau lluosog.

## Sut allwch chi wneud i'r Gwasanaeth Diweddaru weithio i chi

Fe wyddom fod rhai ohonoch yn pryderu, o ganlyniad i newid yn y gyfraith, na fyddwch bellach yn derbyn copi o dystysgrif yr ymgeisydd. Bydd nifer ohonoch yn ystyried sut y byddwch yn gallu darparu ar gyfer y newid hwn, ynghyd â Gwiriadau Statws (sydd ar gael i gyflogwyr neu'r rhai sydd wedi tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru) yn eich proses recriwtio bresennol.

Ceir ansicrwydd gydag unrhyw newid. Fodd bynnag, mae ein hymchwil wedi dangos y bydd y newidiadau hyn yn hawdd i'w datrys – roedd bron i 70% o Gyrff Cofrestredig yn credu y gellid gwneud hyn ac yn cytuno y byddai'r Gwasanaeth Diweddaru yn cyflymu recriwtio. Mae hyn wir yn ffigwr positif ac yn rhoi hwb i ni wrth gyflwyno newid mor fawr i'n proses.

Cofiwch, gallwch gyflawni gwiriad am ddim ac ar unwaith mor aml ag sydd angen neu y dymunwch (gyda chaniatâd yr unigolyn), ac fe allai hyn helpu gwella diogelu yn sylweddol.

## Beth allwch chi ei wneud nawr

- Anogwch eich cyflogeion a darpar gyflogeion i ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru yn www.gov.uk/dbs
- Rhowch wybod i'ch cydweithwyr a chleientiaid am y Gwasanaeth Diweddaru a'u cyfeirio at y cyflwyniad i gyflogwyr, sydd ar gael ar ein gwefan.
- Codwch ymwybyddiaeth ymysg eich cydweithwyr a chleientiaid am y newidiadau sy'n dod ar yr un pryd â'r Gwasanaeth Diweddaru:
    - newidiadau i sut ydych chi'n cwblhau'r maes Swydd yr Ymgeisiwyd Amdani (x61): gweler yr erthygl *'Adran x61 ar y Ffurflen gais'* .
    - oherwydd newid yn y gyfraith, ni fydd y Corff Cofrestredig bellach yn derbyn copi o'r Dystysgrif DBS yn awtomatig – gweler yr erthygl *'Tystysgrifau ymgeiswyr yn unig'*.
- Rhowch wybod i ni sut yr hoffech glywed am gyhoeddiadau yn y dyfodol yn customerservices@dbs.gsi.gov.uk

## Adran x61 ar y Ffurflen gais

Fe ddywedom wrthych yn rhifyn Ebrill Newyddion y DBS pan fyddai'r Gwasanaeth Diweddaru yn cael ei lansio, y byddem yn gwneud ambell newid arall pwysig i'n proses ddatgelu. Y cyntaf o'r rhain yw y bydd angen cwblhau'r maes Swydd yr Ymgeisiwyd Amdani (x61) ar y ffurflen gais yn wahanol, a bydd angen i chi ddechrau gwneud hyn nawr. Ac rydych wedi cymryd sylw o hyn. Roedd gan dros hanner y ffurflenni cais a dderbyniom mis diwethaf yr wybodaeth gweithlu newydd yn y maes hwn. Diolch i chi am ymateb mor gyflym a bod mor rhagweithiol. Mae gwneud y newid hwn wir yn bwysig ac yn golygu'r eich bod yn barod ar gyfer 17 Mehefin a lansiad y gwasanaeth Diweddaru.

Yn anffodus, os nad ydych chi'n cwblhau'r maes hwn yn gywir, gyda manylion y gweithlu perthnasol **a'r** swydd yr ydych wedi ymgeisio amdani, y gallai oedi'r cais gan y bydd angen i ni gysylltu â chi am ragor o wybodaeth. Efallai y bydd hefyd yn atal yr ymgeisydd rhag defnyddio ei Dystysgrif DBS i ddibenion cyflogaeth neu wirfoddoli yn y dyfodol os yw'n tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru.

Rydym angen i chi wneud hyn gan fod yr heddlu yn defnyddio prawf perthnasedd newydd wrth ystyried a ddylid rhyddhau gwybodaeth nad yw'n ymwneud ag euogfarn am unigolyn. Bydd y prawf yn berthnasol i'r gweithlu ble cyflawnir gwiriad cofnod troseddol, yn hytrach na swydd neu rôl unigol.

Mae'r newid yn newyddion da i bawb gan ei fod yn golygu y bydd unigolion sy'n dewis ymuno â'r Gwasanaeth Diweddaru yn gallu mynd â'u tystysgrifau DBS o rôl i rôl o fewn yr un gweithlu. Mae hefyd yn golygu pan fyddwch yn cyflawni gwiriad Statws, y byddwch yn gwybod fod yr wybodaeth a ryddheir yn berthnasol i'r gweithlu a nodir ar y dystysgrif. **Sylwer** – mae hyn yn berthnasol i geisiadau a dderbynnir gan y DBS **wedi** 17 Mehefin.

Llenwch y maes yn gywir fel a ganlyn:

- **Llinell 1 X61**: Ysgrifennwch un o'r ffurfiau canlynol o eiriau i ddynodi'r gweithlu neu weithluoedd perthnasol
    - **Gweithlu Plant** Defnyddiwch hyn ar gyfer unrhyw swydd sy'n ymwneud â gweithio/gwirfoddoli gyda phlant.
    - **Gweithlu Oedolion** Defnyddiwch hyn ar gyfer unrhyw swydd sy'n ymwneud â gweithio/gwirfoddoli gydag oedolion.
    - **Gweithlu Plant** ac Oedolion Defnyddiwch hyn ar gyfer unrhyw swydd sy'n ymwneud â gweithio/gwirfoddoli gyda phlant ac oedolion.
    - **Gweithlu Arall** Defnyddiwch hyn ar gyfer unrhyw swydd nad yw'n ymwneud â gweithio/gwirfoddoli gyda phlant neu oedolion e.e. gard diogelwch.

- **Llinell 2 X61**: Rhowch ddisgrifiad o'r 'Swydd yr Ymgeisiwyd Amdani' o hyd at 30 nod.

Sicrhewch fod pawb yn eich cwmni sy'n helpu llenwi ffurflenni cais yn ymwybodol o'r newid pwysig hwn.

Ceir canllaw ar y newid hwn yma yn y canllaw i gyflogwyr i'r Gwasanaeth Diweddaru.

## Tystysgrifau ymgeisydd yn unig

O 17 Mehefin, yr un pryd ag y byddwn yn lansio'r Gwasanaeth Diweddaru, ni fyddwn bellach yn cyhoeddi copi o Dystysgrif DBS yr ymgeisydd yn awtomatig i'r Corff Cofrestredig.

Mae hyn yn benderfyniad yr oedd yn rhaid i ni ei weithredu oherwydd newid yn y gyfraith. Golyga'r newid hwn – sy'n rhan o nod y llywodraeth i roi mwy o reolaeth i'r unigolyn dros ei ddata ei hun – mai dim ond at yr unigolyn y cyflawnir y gwiriad arno y byddwn yn anfon Tystysgrifau DBS.

Bydd angen i gyflogwyr ofyn i'r ymgeisydd i gael gweld eu Tystysgrif DBS. Bydd Cyrff Cofrestredig a wnaeth gais ar gyfer y gwiriad DBS gwreiddiol yn gallu gofyn i ni am gopi o Dystysgrif DBS yr ymgeisydd; ond dim ond os yw **pob** un o'r amodau canlynol yn wir:

- Mae'r unigolyn wedi tanysgrifio i'r Gwasanaeth Diweddaru; **ac**

- Mae'r cyflogwr wedi cyflawni gwiriad Statws a ddatgelodd newid i'r Dystysgrif DBS; **ac o ganlyniad:**
    - Mae'r unigolyn wedi gwneud cais am wiriad cofnod troseddol newydd; **ac**
    - Mae'r DBS wedi cyhoeddi Tystysgrif DBS newydd i'r ymgeisydd dros 28 niwrnod yn ôl; **ac**
    - Nid yw'r ymgeisydd wedi dangos eu Tystysgrif DBS newydd i'r cyflogwr.

Os yw'r unigolyn yn codi anghydfod gyda'u Tystysgrif DBS newydd, ac nad yw canlyniad yr anghydfod 'wedi ei gynnal', rhaid i'r Corff Cofrestredig aros 28 niwrnod wedi dyddiad datrysiad yr anghydfod cyn gofyn am ailargraffiad. Rydym yn gwneud hyn er mwyn i'r ymgeisydd gael amser i ddangos y Dystysgrif DBS i'r Corff Cofrestredig/cyflogwr.

Ceir canllaw ar y newid hwn yma yn y canllaw i gyflogwyr i'r Gwasanaeth Diweddaru.

## Hidlo: beth sydd angen i chi wybod

O **29 Mai 2013**, dechreuom hidlo hen a mân euogfarnau a rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion o Dystysgrifau DBS. Rydym yn gwneud hyn oherwydd i'r Llys Apêl farnu fod rhyddhau gwybodaeth cofnod troseddol llawn unigolyn yn groes i Erthygl 8 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Roedd Gweinidogion y Swyddfa Gartref eisoes yn ystyried newid polisi o'r fath. Achosodd y dyfarniad diweddar gan y Llys Apêl iddynt gyflymu'r gwaith hwn.

Datblygwyd y rheolau hidlo (a fydd yn dileu rhai hen a mân euogfarnau a rhybuddiadau, ceryddon a rhybuddion o Dystysgrif DBS) gan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'i gyflwyno gyda deddfwriaeth newydd:

Y ddeddfwriaeth yw:

- Gorchymyn Deddf yr Heddlu 1997 (Tystysgrifau Cofnod Troseddol: Materion Perthnasol) (Addasiad) (Cymru a Lloegr) 2013 – ac sydd ar gael yma

- Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (Addasiad) (Cymru a Lloegr) 2013 – ac sydd ar gael yma

Mae'r rheolau hidlo yn berthnasol i bob Tystysgrif DBS a gyhoeddir o **29 Mai 2013.**

### Y Rheolau Hidlo

Gellir dod o hyd i'r Rheolau Hidlo yma ar ein gwefan ac fe'i rhestrir isod.

**I'r rhai oedd yn 18 oed neu'n hŷn ar adeg cyflawni'r drosedd:**

Bydd **euogfarn** fel oedolyn yn cael ei dileu o'r Dystysgrif DBS os:

- bu 11 mlynedd ers dyddiad yr euogfarn; ac
- dyma unig drosedd yr unigolyn, ac

- nad oedd yn arwain at ddedfryd o garchar.

Hyd yn oed wedyn, dim ond os nad yw'n ymddangos ar yr amrediad o droseddau na fydd fyth yn cael eu dileu o dystysgrif y bydd yn cael ei ddileu, gan gynnwys troseddau rhyw a thrais difrifol. *(gweler Eithriadau i'r Rheolau).* Os oes gan unigolyn fwy nag un drosedd, yna bydd manylion eu heuogfarnau yn cael eu cynnwys pob tro.

Bydd **rhybuddiad** i oedolyn yn cael ei ddileu wedi i chwe blynedd basio ers dyddiad y rhybuddiad – ac ar yr amod nad yw'n ymddangos ar y rhestr o droseddau sy'n berthnasol i ddiogelu.

**I'r rhai oedd dan 18 oed ar adeg cyflawni'r drosedd:**

Ar gyfer euogfarnau, mae'r un rheolau'n berthnasol ag ar gyfer euogfarnau i oedolion, heblaw bod y cyfnod amser a ddaeth i ben yn bump a hanner o flynyddoedd.

Ar gyfer rhybuddion, mae'r un rheolau'n berthnasol ag ar gyfer rhybuddion i oedolion, heblaw bod y cyfnod amser a ddaeth i ben yn ddwy flynedd.

## Eithriadau i'r Rheolau

Ni fydd rhai troseddau byth yn cael eu dileu o Dystysgrif DBS. Mae'r rhain yn cynnwys y troseddau rhyw a thrais mwyaf difrifol. Gallwch weld y rhestr benodedig hon o droseddau yma:

Mae'n bwysig i chi nodi na all ymgeiswyr godi anghydfod ynglŷn â Thystysgrif DBS a gyhoeddwyd cyn 29 Mai 2013 ar sail hidlo yn unig; fodd bynnag, fe **allant** ar Dystysgrifau DBS a gynhyrchir wedi'r dyddiad hwn os ydynt yn credu y dylai euogfarn neu rybuddiad fod wedi ei hidlo yn unol â'r rheolau hidlo.

Ni fyddwn yn ailgyhoeddi'r holl Dystysgrifau DBS (a Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)) a gyhoeddwyd yn flaenorol gyda'r rheolau hidlo newydd wedi eu gweithredu gan y cyhoeddwyd y rhain dan y darpariaethau deddfwriaethol oedd ar waith ar ddyddiad eu cyhoeddi.

Nid yw atgyfeiriadau diogelu na phenderfyniadau rhwystro wedi eu heffeithio gan gyflwyniad y rheolau hidlo newydd hyn.

## Gwybodaeth bwysig i gyflogwyr

**Ni** fydd cyflogwyr yn gallu ystyried hen a mân rybuddion ac euogfarnau wrth wneud penderfyniadau am unrhyw unigolyn (gweler yr adran *'Y Rheolau Hidlo'* uchod).

Bydd angen i ffurflenni cais am swyddi adlewyrchu'r newidiadau hidlo er mwyn sicrhau fod:

a) *cyflogwyr* yn gofyn y cwestiynau cywir.

b) *cyflogeion* yn rhoi'r ateb cywir (cyfreithiol gywir). Anogir cyflogwyr i gynnwys y paragraff isod ar eu ffurflenni cais safonol:

'Mae'r addasiadau i'r Gorchymyn Eithriadau 1975 (2013) yn caniatáu 'diogelu' euogfarnau a rhybuddion penodol treuliedig ac nid ydynt yn amodol i ddatgeliad i gyflogwyr, ac ni ellir eu

hystyried. Gellir dod o hyd i ganllaw a meini prawf ar hidlo’r rhybuddion ac euogfarnau hyn ar wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.’

## Ffurflen gais: ambell beth pwysig arall i’w nodi

### Cwblhau cwestiwn e55

I gefnogi gweithrediad cywir y ddeddfwriaeth hidlo newydd, gydag amser bydd angen addasu cwestiwn e55 ar y ffurflen gais. Yn y cyfamser, gofynnwn i chi weithredu’r newid pwysig hwn gyda’ch ymgeiswyr trwy ddilyn y canllaw isod:

Ar hyn o bryd, mae cwestiwn e55 yn gofyn i’r ymgeisydd:

‘*a ydych chi erioed wedi eich euogfarnu am drosedd neu dderbyn rhybuddiad, cerydd neu rybudd?’*

Dylai ymgeiswyr nawr **anwybyddu’r** cwestiwn hwn ac **yn hytrach** drin y cwestiwn hwn fel pe baent yn ateb:

‘*a oes gennych unrhyw euogfarnau, rhybuddiadau, ceryddon neu rybuddion anhreuliedig?*’

Mae’n bwysig iawn eich bod yn rhoi gwybod i ymgeiswyr am y newid hwn i sicrhau y dilynir y gyfraith yn gywir.

#### Hysbysiad Prosesu Teg:

Ar dudalen flaen y ffurflen gais, rydym yn cynnwys hysbysiad prosesu teg. Mae hyn yn datgan y manylion yr ydych chi a’r ymgeisydd yn eu cwblhau ar y ffurflen cais ac yn cael eu cyfeirio at yr heddlu a chyrff llywodraethol eraill, i helpu nodi cyfatebiadau posibl yn erbyn cofnodion a gedwir ganddynt.

Bellach mae yna ddiweddariad i’r hysbysiad hwn, sef y gall DBS nawr hefyd ddefnyddio’r wybodaeth a ddarperir ar y dystysgrif, neu unrhyw wybodaeth arall y byddwn yn cael gwybod amdano, i hysbysu ystyriaeth o’n penderfyniadau rhwystro. Gallwn wneud hyn gan fod deddfwriaeth a gynhwysir yn y Ddeddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006 yn rhoi grymoedd i wneud hynny.

Byddwn yn eich cynghori o pryd y byddwn yn diweddaru’r ffurflen gais gyda’r newidiadau hyn cyn gynted ag y gallwn.